CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **14/05/24**

Teitl: **Gosod Ffioedd 24/25 ar gyfer Pobl Hŷn – Ffioedd yr Awdurdod Lleol a'r Sector Annibynnol**

Pwrpas yr adroddiad: **Gosod ffioedd a argymhellir am leoliadau yng Nghartrefi Gofal Ceredigion i Bobl Hŷn ar gyfer 2024/25**

Er: **Penderfyniad**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant

1. Cyflwyniad

Bob blwyddyn, gosodir ffi safonol ar gyfer lleoliadau Pobl Hŷn a gomisiynir gan y Cyngor mewn cartrefi Gofal Nyrsio a Phreswyl preifat yn y sir. Rhennir y ffioedd i 4 categori ffioedd unigol gwahanol. Yng Ngheredigion, ceir 9 o Gartrefi Gofal yn y sector Annibynnol (6 Chartref Preswyl a 3 Chartref Nyrsio) a 6 Chartref Gofal sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol.

Mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i ddilyn canllawiau LlC a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wrth ystyried a phennu pris gofal yng nghartrefi Pobl Hŷn yng Ngheredigion. Mae cyhoeddiadau niferus ar gael megis 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, Fframwaith Comisiynu a Chanllawiau' gan LlC a 'Phecyn cymorth Gadewch i ni gytuno i gytuno' LlC, sy'n cynnig canllaw arfer gorau. Hanfod y canllawiau yw bod gofyn i gomisiynwyr a darparwyr ffurfio barn ar y cyd ynghylch y pris a'r cydrannau sy'n rhan o'r pris hwnnw, ac mae angen i'r ddwy ochr weithredu mewn ffordd dryloyw ac agored.

2. Cefndir

Tuag at ddiwedd 2021, comisiynwyd sefydliad allanol gan y Cyngor i gynnal adolygiad annibynnol o'r ffioedd, ac o ganlyniad i'r gwaith a gynhaliwyd gan Laing Buisson, gwelom ffioedd 2022/23 yn codi'n sylweddol, ac yn ystod 2023/24, cyflwynom godiad chwyddiannol i fasged y costau, sef 8.8% ar gyfartaledd. Dros y 2 flynedd ddiwethaf, mae'r ffioedd wedi codi o leiaf 28%. Dangosir y ffioedd a dalwyd i ddarparwyr dros y tair blynedd ddiwethaf yn y tabl canlynol:

Ffioedd Lleoliadau Wythnosol Ceredigion	**Preswyl**	**EMI Preswyl**	**Nyrsio**	**EMI Nyrsio**
Ffioedd 2021/22	£644.00	£686.00	£668.15	£711.48
Ffioedd 2022/23	£760.00	£812.00	£883.30	£883.30
% y Codiad	*18.01%*	*18.37%*	*32.20%*	*24.15%*
Ffioedd 2023/24	£827.00	£884.00	£961.00	£961.00
% y Codiad	*8.82%*	*8.87%*	*8.80%*	*8.80%*
% y Codiad ar gyfer 2023/24 o'i gymharu â 2021/22	*28.4%*	*28.9%*	*43.8%*	*35.1%*

Mae lefel bresennol ein ffioedd yn cymharu'n ffafriol gyda'r sefyllfa ar draws Cymru. Roedd data a goladwyd gan Fforwm Gofal Cymru ar gyfer 23/24 yn dangos bod y ffioedd a dalom i'n darparwyr cartrefi gofal annibynnol OP yn y trydydd safle uchaf yng Nghymru ar gyfartaledd (gan ystyried cyfartaledd syml o'r pedwar categori ffioedd).

Nid yw cynnal dadansoddiad llawn a chyflawn o wir gostau gofal bob blwyddyn yn ddewis realistig, o ganlyniad i'r goblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau i'r Cyngor ac i'r Cartrefi Gofal, a phenderfynwyd y byddai ystyriaethau am godiadau blynyddol yn cael eu seilio ar ddull gweithredu o fath mynegai chwyddiannol yn ystod y blynyddoedd yn y canol, ac y byddai dadansoddiad mwy cyflawn yn cael ei gynnal bob 3 i 4 blynedd. Mae hyn yn cyd-fynd â phecyn cymorth 'Gadewch i ni Gytuno i Gytuno' LIC ac roedd hefyd yn argymhelliad yn adroddiad Laing Buisson.

3. Y broses er mwyn pennu'r ffioedd ar gyfer 2024/25

Ar gyfer 24/25, rydym wedi bod yn rhagweithiol, gan ymgysylltu'n gynharach gyda'r Cartrefi Gofal OP dros y misoedd diwethaf er mwyn deall eu heriau a'r pwysau ariannol sydd arnynt yn fanwl, gyda'r nod o osod ffi sy'n gynaliadwy i'r darparwyr ac sy'n adlewyrchu gwir gost gofal, gan sicrhau cydbwysedd rhwng hynny a'r hyn sy'n fforddiadwy, o ystyried y sefyllfa hynod o heriol y mae'r Cyngor yn ei hwynebu o ran ei gyllideb.

Yn dilyn cyfarfod gyda'r holl ddarparwyr yn y sir ar 28/9/23, cynigiwyd y cyfle i bob un ohonynt gael cyfarfod 1:1 i drafod y pwysau sydd arnynt o ran costau ac roeddem wedi cyfarfod ag 8 o'r 9 Cartref Gofal i drafod cymarebau staffio, cyfraddau tâl, pwysau eraill gan gostau. Cyfrannodd y wybodaeth hon at godiad chwyddiannol arfaethedig ar gyfer pob categori o ran ffioedd, a defnyddiwyd ffioedd 2023/24 fel sylfaen, a rhoddwyd dadansoddiad manwl ar sail cydrannau o'r Ffioedd i'r holl Ddarparwyr.

4. Codiad chwyddiannol arfaethedig ar gyfer 24/25

Mae codiadau chwyddiannol ar gyfer elfennau cost penodol wedi cael eu hystyried ar gyfer 2024/25 er mwyn darparu ffi safonol wythnosol gyffredinol ar gyfer cartrefi gofal. Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth gynnig y ffioedd cyffredinol ar gyfer 24/25 fel a ganlyn:

- Ystyrir y newid i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer 2024/25 (a godwyd o £10.90 i £12 – codiad o 10%) ar gyfer y costau staff gofal yn y model.
- Mae codiadau wedi cael eu gwneud i amrediad o gostau cyflenwadau/safle a staff nad ydynt yn staff gofal hefyd, ar ôl ystyried adborth allweddol a gafwyd gan ddarparwyr, lle y mae rhai costau wedi cael eu codi i adlewyrchu lefelau chwyddiant uwch o'u cymharu â meysydd eraill.
- O ran y codiadau cyffredinol i wahanol elfennau y ffioedd, mae staff gofal a staff atodol wedi gweld codiad o 10%, mae cyflenwadau a gwasanaethau wedi gweld codiad o 7% ar gyfartaledd ac mae'r costau eraill wedi gweld codiad o 5%. CPI ym mis Mawrth 2024 yw 3.2% ar ôl iddo fod yn 3.9% ym mis Tachwedd 2023 ac yn 4% ym mis Rhagfyr 2023.

Mae'r cynigion ffioedd a wnaethpwyd yn ceisio sicrhau dull gweithredu cytbwys, rhesymegol a gwybodus, gan fanteisio ar wybodaeth a gafwyd gan amrywiaeth o ffynonellau ac mae'r ffi arfaethedig yn ceisio cynnal marchnad gynaliadwy, effeithlon ac effeithiol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, sy'n gyfyngedig. Yn ogystal, rhoddwyd ffi i gartrefi a rannwyd yn gydrannau, yn y gobaith y byddai darparwyr, pe bai problem yn codi lle na fyddai lefel gyffredinol y ffi yn adlewyrchu gwir gost gofal, yn gallu amlygu meysydd penodol lle y mae eu costau yn wahanol iawn (naill ai'n is neu'n uwch) na'r hyn a ystyriwyd yn y ffi safonol, a byddem yn gallu casglu tystiolaeth briodol i'w hystyried fel rhan o'r trafodaethau cyffredinol ynghylch ffioedd.

Cynnig 1

Cyflwynwyd manylion y cynnig cyntaf i ddarparwyr ar 24/1/24 ac roedd yn cynnwys codiad arfaethedig a oedd yn amrywio o 8.22% i 8.37% fel y dangosir yn y ffigurau isod:

	Preswyl	**EMI Preswyl**	**Nyrsio**	**EMI Nyrsio**
Ffioedd 2023/24	£827.00	£884.00	£961.00	£961.00
Ffioedd Arfaethedig 24/25	**£896.00**	**£958.00**	**£1,040.00**	**£1,040.00**
			**	**
% y Codiad	8.34%	8.37%	8.22%	8.22%

** Nid yw'r Ffioedd Nyrsio yn cynnwys Gofal Nyrsio am Ddim yr Awdurdod Lleol ac elfen FNC y Bwrdd Iechyd

Nid yw symiau FNC 24/25 yn hysbys ar hyn o bryd, ond ar gyfer 23/24, y cyfraddau presennol yw £8.37 ar gyfer FNC yr ALl a £206.95 ar gyfer FNC y Bwrdd Iechyd. Mae'r taliadau hyn yn ychwanegol i'r ffi nyrsio a gaiff ei chynnwys yn y tabl uchod.

Nid oedd unrhyw ddarparwyr wedi derbyn y cynnig cyntaf, felly gwnaethpwyd cynnig dilynol.

Cynnig 2

Fel rhan o'r adborth, soniodd rhai o'r darparwyr am y ffaith bod yr ACC wedi cael ei dynnu'n ôl yn dilyn ymarfer Laing Buisson. Mae ACC yn Gyfraniad Cost Ychwanegol tuag at leoliad – fel arfer, mae hyn yn ymwneud â sefyllfa Cartref Delfrydol, ond mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio lle y cynigir lefel estynedig o ran lleoliad sy'n mynd y tu hwnt i leoliad safonol. Ystyriodd y Cyngor yr holl adborth a roddwyd, gan ddiwygio'r cynnig lle'r oedd o'r farn bod gwerth ystyried yr adborth a roddwyd. Felly, cynigiwyd ACC fel rhan o gynnig estynedig ar gyfer ystafelloedd sydd ag ystafell ymolchi yn gysylltiedig am £25 yr wythnos ychwanegol ar gyfer ystafelloedd cymwys. Gwnaethpwyd y cynnig hwn ar 26/02/24.

	Preswyl	EMI Preswyl	Nyrsio	EMI Nyrsio
Ffioedd Arfaethedig 24/25 (yn unol â Chynnig 1)	**£896.00**	**£958.00**	**£1,040.00**	**£1,040.00**
ACC (Ychwanegiad newydd)	**£25.00**	**£25.00**	**£25.00**	**£25.00**

Diweddarwyd Grŵp Arwain y Cyngor ac maent wedi ystyried y cynigion a wnaethpwyd, yr adborth a gafwyd gan ddarparwyr ac maent wedi penderfynu bod yr ail gynnig a wnaethpwyd yn gynnig llawn a therfynol gan nad oes unrhyw gyllid pellach ar gael o ystyried y sefyllfa o ran y Gyllideb, a bod y cynigion a wnaethpwyd i'r Sector yn gadarn ac yn cydnabod y pwysau allweddol o ran costau y mae'r Sector yn eu hwynebu. Mynegwyd hyn i'r Darparwyr mewn llythyr ar 14/04/24.

Dylid nodi bod nifer fach iawn o gontractau preifat wedi cael eu hetifeddu ar ôl trosglwyddo Hafan y Waun i ofal y Cyngor. Bydd ffioedd ar gyfer y lleoliadau penodol hyn yn parhau yn unol â'r contractau hynny ac nid yw'r rhain yn rhan o'r ystyriaethau ynghylch gosod Ffioedd.

5. Adborth gan y Darparwyr:

Gofynnwyd i'r holl Gartrefi Gofal am eu hadborth terfynol ynghylch lefelau ffioedd 2024/25 fel yr amlinellwyd yn y llythyr dyddiedig 14/04/24.

Mae'r 3 Chartref Nyrsio wedi gwrthod y ffioedd arfaethedig, mae 3 Chartref Preswyl wedi derbyn y ffioedd arfaethedig, er eu bod yn derbyn y ffi gan gydnabod sefyllfa ariannol y Cyngor. Nid yw'r 3 Chartref Preswyl sy'n weddill wedi derbyn y Ffioedd arfaethedig. Mae'r Darparwyr wedi codi pwyntiau, materion a heriau niferus mewn perthynas â'r ffi.

- Bod y ffi sylfaenol a osodwyd ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar gostau cyfartalog cartrefi gofal annibynnol yn y Sir, felly nid oedd y ffi yn talu gwir gostau rhai cartrefi gofal unigol ar yr adeg pan gytunwyd ar y ffi (gan bod gan rai cartrefi Gofal gostau uwch a bod gan eraill gostau is).

- O bosibl, ar gyfer cartrefi gofal lle y mae'r perchennog yn gweithio yn y busnes ond nid yw'n cymryd cyflog, nad oedd y costau llawn wedi cael eu hystyried fel rhan o ymarfer cost deg gofal, gan arwain at wyro ffigwr y gost gyfartalog.
- Bod elfen gofal cymdeithasol darparu gofal i ddefnyddiwr gwasanaeth EMI Preswyl bellach ar lefel cartref nyrsio o ganlyniad i lefel y gofal sy'n ofynnol oherwydd cymhlethdod y preswylwyr ac yn fwy cyffredinol, bod darparwyr yn gweld cynnydd yn aciwtedd a lefel anghenion gofal preswylwyr, sy'n cynyddu gofynion staffio gan gynnwys cymarebau staffio a chostau o ganlyniad.
- Teimlwyd nad oedd hi'n debygol y byddai canlyniadau preswylwyr yn cael eu gwella gan y ffaith bod ystafell wely ac ystafell ymolchi yn gysylltiedig yn cael ei darparu, ond gofynnwyd a fyddem fel Awdurdod Lleol yn ystyried talu ffi uwch pan ystyrir bod cartref yn cynnig darpariaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir fel darpariaeth safonol. Er enghraifft – am gael tîm llesiant sy'n cynnig lefel cymorth gofynnol fesul preswylydd yr wythnos neu lle y bernir bod cartrefi gofal yn cynnig gofal o ansawdd uwch yn gyson (a bennir gan ymweliadau SA) h.y. Premiwm Ansawdd.

Mae hanfod nifer o'r pwyntiau hyn yn deillio o ddiffygion tybiedig yn yr adolygiad annibynnol blaenorol o ffioedd a gynhaliwyd gan Laing Buisson ym marn y Darparwyr. Gosodwyd ein ffi sylfaenol bresennol, a godwyd yn dilyn hyn, a'r gwahaniaethau yn ein cyfraddau ffioedd, yn dilyn y gwaith annibynnol a gynhaliwyd gan Laing Buisson, y maent yn cael eu cydnabod yn arbenigwyr yn eu maes. Roedd yr holl bartïon wedi ymwneud yn llawn â'r broses adolygu annibynnol, a derbyniwyd y model a'r ffioedd dilynol a gyflwynwyd fel casgliad yr adolygiad hwnnw. Awgrymir mai'r unig adeg y dylid ystyried cam posibl i symud i ffwrdd o'r model hwn yw fel rhan o adolygiad pellach ar raddfa fawr, a gynhelir bob 3 i 4 blynedd fel arfer gan eu bod yn defnyddio cryn adnoddau i'w cynnal.

6. Casgliad

Mae angen ystyried y cynnig ynghylch ffioedd o fewn cyd-destun y pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor yn ystod 24/25, a dylid nodi bod y codiadau canrannol arfaethedig ar gyfer Cartrefi Gofal OP, y maent dros 8.2%, lawer yn uwch na'r cynnydd yn swm y cyllid craidd y mae'r Cyngor wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru, sef 2.9%.

Mae'r Cyngor wedi bod yn ymgysylltu â Darparwyr er diwedd mis Medi 2023, ac mae wedi gwneud dau gynnig ynghylch Ffioedd. Mae wedi gwneud popeth o fewn ei allu i gynnig codiad i Ddarparwyr Cartrefi Gofal yng Ngheredigion ar gyfer 24/25 sy'n fforddiadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael ac sy'n ystyried y prif elfennau newidiol sy'n effeithio ar Gartrefi Gofal megis y codiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac effeithiau eraill sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Mae Darparwyr wedi codi materion cyffredinol ynghylch y ffaith nad yw'r ffi yn ddigonol i dalu'r costau, ond nid yw'r dystiolaeth gadarn wedi cefnogi'r sylwadau a wnaethpwyd.

Fel Cyngor, rydym wedi ceisio meincnodi ein ffioedd arfaethedig yn erbyn rhai Awdurdodau Lleol eraill er mwyn sicrhau bod y codiadau a'r ffioedd yr ydym yn eu cynnig ar gyfer lleoliadau Pobl Hŷn Ceredigion yn rhesymol ac nad ydym yn gweld newid sylweddol o ran y ffioedd a godir mewn rhannau eraill o Gymru, a fyddai'n

awgrymu nad ydym wedi ystyried newidyn allweddol. Mae'n galonogol nodi bod y cynigion a wnaethpwyd gan Awdurdodau Lleol eraill yn debyg.

- Mae Awdurdod cyfagos wedi gosod ffioedd gyda chodiad o 8.31% i 8.55%, ac mae eu ffioedd nhw yn is na'n ffioedd ni ar draws y pedwar categori.
- Mae sawl Awdurdod yng Ngogledd Cymru wedi cynnig codiadau o 8.8% ac mae un Awdurdod yng Ngogledd Cymru wedi cynnig codiadau o 8.9% i 12.1% (ar ôl cynnal ymarfer cost deg gofal yn 2023), ond hyd yn oed gyda'r codiadau hyn, mae'r ffi breswyl safonol tua £50 yr wythnos yn is na'n ffi ni.
- Mae Awdurdod yn Ne Cymru, sydd wastad wedi cael un o'r ffioedd wythnosol uchaf, wedi cwblhau ei godiadau, sef 7.26% a 7.65% ar gyfer ffioedd Preswyl ac EMI Preswyl. Roedd yr Awdurdod hwn wedi cael codiad o 4.3% yn ei setliad cyllid craidd gan LIC ar gyfer 24/25.

Er nad yw'r holl Ddarparwyr wedi derbyn ffioedd arfaethedig 24/25 yn llawn, rydym wedi dangos sut yr ydym wedi ffurfio ein casgliad am y ffioedd arfaethedig ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, a'r ffaith y dilynwyd proses gadarn. Byddai rhoi sylw i rai o'r pryderon eraill yn gofyn am gynnal dadansoddiad llawer mwy cyflawn o'r costau a byddai gofyn i Ddarparwyr gyflwyno tystiolaeth gadarn.

Felly, cynigir bod y Cyngor yn gweithredu'r Ffioedd a nodir yng Nghynnig 2, a'u hôl-ddyddio i fis Ebrill 2024 (gan ddefnyddio dull effeithiol sy'n cyd-fynd ag asesiadau ariannol er mwyn osgoi gwaith ychwanegol / dyblygu gwaith) ac yr ystyrir cynnal ymarfer mwy manwl ar gyfer ffioedd 25/26 neu 26/27 oherwydd y bydd y cylch 3 i 4 blynedd wedi cwblhau erbyn hynny.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Tymor hir: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cyswllt: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:

1. **Bod y ffioedd ar gyfer Cartrefi Gofal preifat yng Ngheredigion yn cael eu cymeradwyo ar gyfer 2024/25 ar y lefelau wythnosol canlynol, a fydd yn dod i rym o 08/04/2024:**

Preswyl	**£896.00**
EMI Preswyl	**£958.00**
Nyrsio	**£1,040.00**
EMI Nyrsio	**£1,040.00**

2. **Cynnig ffi am ystafelloedd sydd ag ystafell ymolchi yn gysylltiedig am swm ychwanegol o £25 yr wythnos am ystafelloedd perthnasol, a fydd yn dod i rym o 08/04/2024.**

3. **Bod y ffioedd ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor yng Ngheredigion yn cael eu cymeradwyo ar gyfer 2024/25 yn unol â'r lefelau wythnosol canlynol, a fydd yn dod i rym o 08/04/2024:**

Preswyl	**£896.00**
EMI Preswyl	**£958.00**

4. **Nodi bod nifer fach o gontractau preifat wedi cael eu hetifeddu ar ôl trosglwyddo Hafan y Waun i'r Cyngor ac y bydd y ffioedd ar gyfer y lleoliadau hyn yn parhau yn unol â'r contractau hynny.**

5. **Nodi bod y cylch er mwyn cynnal adolygiad manwl arall o'r Ffioedd yn golygu y dylid cynnal hwn ar gyfer y broses o osod ffioedd ar gyfer 25/26 neu 26/27.**

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Cytuno ar a gosod ffioedd i Bobl Hŷn ar gyfer 2024/25.

Trosolwg a Chraffu:
Amherthnasol

Fframwaith Polisi:
Costau Lleoliadau a Gomisiynwyd a Ffioedd a Thaliadau

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Rhoi hwb i'r Economi, Cynorthwyo Busnesau a Galluogi Cyflogaeth; Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
Mae'r cynnig am y ffioedd arfaethedig o fewn y pwysau o ran costau ar gyfer codiadau gwasanaethau a gomisiynir a oedd wedi cael ei gynnwys fel rhan o'r broses o osod cyllideb 24/25.

Goblygiadau cyfreithiol:
Dim

Goblygiadau staffio:
Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:
Dim

Risg(iau):
Efallai y bydd heriau comisiynu gyda Chartrefi Gofal unigol os byddant yn gwrthod ffioedd safonol y Cyngor ar gyfer lleoliadau. Os na fydd cyflenwad digonol o welyau OP nyrsio neu breswyl yng Ngheredigion, efallai y bydd gofyn i ni leoli y tu allan i'r Sir, ac fe allai'r gost o wneud hyn fod yn uwch.

Pwerau Statudol:
Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Canllawiau statudol 2010 LlC o'r enw 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, Fframwaith Comisiynu a Chanllawiau'

Papurau Cefndir:
Dim

Atodiadau:
Dim

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Audrey Somerton Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol)
Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)

Swyddog Adrodd:
Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)
Kirsty Dawson (Rheolwr Corfforaethol: Cyfrifeg Gwasanaeth)

Dyddiad:
23/04/24